10fed Medi 2025

Annwyl Ddirprwy Brif Weinidog,

Ar 1af Hydref bydd dadl yn y Senedd ynghylch y potensial i ddeddfu ar gyfer gosod brics gwenoliaid duon ym mhob adeilad newydd yng Nghymru. Rydym yn ysgrifennu atoch fel grŵp o amgylcheddwyr ifanc, angerddol o bob cwr o Gymru, i ofyn i chi wneud popeth o fewn eich gallu i gefnogi'r cynnig hwn.

Cafodd llawer ohonom y pleser o'ch cyfarfod yn lansiad ein 'Maniffesto Ieuenctid ar gyfer COP 16' yn y Senedd fis Hydref diwethaf. Yn y digwyddiad hwnnw, fe wnaethoch draddodi araith ysbrydoledig ac angerddol am bwysigrwydd adfer bioamrywiaeth; nid dim ond er budd yr amgylchedd ond hefyd er budd iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol. Fel pobl ifanc sy'n teimlo'n siomedig yn aml gyda naws y drafodaeth wleidyddol fodern ar y cyfryngau, roedd yn hynod galonogol eich clywed yn siarad gyda dealltwriaeth mor ddidwyll a diffuant am y materion hyn sydd mor bwysig i ni.

Rydym yn siarad yn aml am yr angen am sicrhau 'dyfodol gwylltach', ond pur anaml rydym yn stopio i ystyried beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd neu sut gallai *deimlo*. I ni, mae dyfodol gwylltach yn ymwneud â chael y cyfle i drochi ein traed yn y môr neu afon leol heb orfod ymladd ein ffordd drwy jyngl o ffromlys chwarennog na phoeni am ble mae'r carthion diweddaraf wedi cael eu gollwng. Mae'n ymwneud â mynd am dro mewn coetir lleol nad yw dan fygythiad gan ddatblygiad a gweld yr amrywiaeth sydd yno yn oedrannau'r coed, wrth i goetir hynafol gymysgu â thyfiant newydd. Mae'n ymwneud â chamu allan ar ddiwrnod o wanwyn a gwrando ar synau gwenoliaid duon ym mondoeau ein tai a theimlo cysylltiad â'r byd ehangach.

Un o'r 'Gofynion i Gymru' yn ein maniffesto yw bod *"rhaid i bob datblygiad newydd yng Nghymru gael effaith gadarnhaol ar fyd natur".* Fe wnaethom ni hyrwyddo'r ymgyrch brics gwenoliaid duon fel rhan o lansiad ein maniffesto yn y Senedd flwyddyn yn ôl, gan ein bod yn teimlo'n gryf ei bod yn ffordd rad, hawdd o sicrhau mannau nythu hanfodol ar gyfer y rhywogaeth o aderyn sy'n dirywio gyflymaf yn ein gwlad. Mae ymchwil yn cael ei gynnal o hyd i geisio deall yn well y ffactorau penodol sy'n arwain at eu dirywiad, ond rydym yn gwybod eu bod yn ddibynnol ar geudodau yn ein hadeiladau a'n cartrefi er mwyn magu. Mae un peth yn sicr; os nad oes mwy o lefydd ar gael iddyn nhw yn ein hadeiladau, ryw ddiwrnod, ni fyddant yn dychwelyd o gwbl.

Rydym yn deall bod y weledigaeth gyffredinol o 'Gymru wylltach' yn gymhleth. Mae'n gofyn am symud nifer sylweddol o bobl, ymgyrchoedd i newid barn y cyhoedd, ac ailbrisio sylweddol ar ein gwariant cenedlaethol. Fodd bynnag, pe bai modd cyflawni ffracsiwn o'r weledigaeth hon hyd yn oed, byddem yn ystyried

North Wales Wildlife Trust
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

northwaleswildlifetrust.org.uk
info@northwaleswildlifetrust.org.uk

**Prif Swyddfa:**
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

**Swyddfa Dwyrain**:
Aberduna, Ffordd Maeshafn,
Maeshafn, Sir Ddinbych,
CH7 5LD
01248 351 541

**Head Office**:
Llys Garth, Garth Road,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

**East Office**:
Aberduna, Maeshafn Road,
Maeshafn, Denbighshire,
CH7 5LD
01248 351 541

*Charity Number: 230772*
*Company Number: 773995*

*Rhif Elusen: 230772*
*Rhif Cwmni: 773995*

hynny’n llwyddiant mawr i Gymru a byddai'n gwella ffordd o fyw ei phobl a'i bywyd gwyllt. Byddai'n meithrin ymddiriedaeth bod ein Llywodraeth yn gweithio i gyflawni polisïau presennol a gorfodi deddfau amgylcheddol, a bod y Llywodraeth yn deall y problemau y mae pobl bob dydd yn eu hwynebu wrth geisio ymgysylltu â'n byd gwylltach. Byddai deddfu ar gyfer brics gwenoliaid duon gorfodol ym mhob datblygiad newydd yng Nghymru yn gam sylweddol tuag at gyflawni hyn. Byddai'n helpu i osod Cymru ar wahân fel gwlad sy'n lle cadarnhaol i fyd natur ac sy'n gweld y byd naturiol, nid fel rhywbeth y mae'n rhaid lliniaru ar ei gyfer a gweithio o'i gwmpas, ond fel rhywbeth a all elwa mewn gwirionedd o'n datblygiadau a'i ddwyn yn agosach at bobl yn eu bywydau bob dydd.

Gobeithiwn yn fawr y gallwn ni ddibynnu ar eich cefnogaeth.

Yn Gywir,

MÔN GWYRDD

Fforwm Ieuenctid Môn Gwyrdd, ar ran Fforymau Ieuenctid yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru

North Wales Wildlife Trust
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**northwaleswildlifetrust.org.uk**
info@northwaleswildlifetrust.org.uk

**Prif Swyddfa:**
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

**Swyddfa Dwyrain**:
Aberduna, Ffordd Maeshafn,
Maeshafn, Sir Ddinbych,
CH7 5LD
01248 351 541

**Head Office**:
Llys Garth, Garth Road,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

**East Office**:
Aberduna, Maeshafn Road,
Maeshafn, Denbighshire,
CH7 5LD
01248 351 541